Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

**POLICE AND CRIME PANEL**

**PANEL HEDDLU A THROSEDD**

## Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 16 Rhagfyr 2013 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

**1.** **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

**2.** **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

**3.** **Materion Brys**

Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4.** **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 10)

**5.** **Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd** (Tudalennau 11 - 27)

**6.** **Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

**a)** Cynllun Lwfansau (Tudalennau 28 - 30)

**7.** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:**

Monday, 20 January 2014 @ 10.00 am

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Glenys Diskin (Cadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Gethin Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| | |
| Cyng Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Charles Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Colin Powell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Ian Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Bill Tasker | Cyngor Sir Ddinbych |
| | |
| Patricia Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 11 Tachwedd 2013 am 10.00 am
Bodlondeb Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Glenys Diskin (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr: Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Williams T Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Charles Jones (Cyngor Gwynedd), Colin Powell (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Bill Tasker (Cyngor Sir Ddinbych) a Gethin Williams (Cyngor Gwynedd) |
| Aelod Cyfetholedig | Pat Astbury a Tim Rhodes |
| Hefyd yn bresennol: | Anna Humphreys (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Winston Roddick CB QC (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) |
| Swyddogion: | Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol – Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth), Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | Guto Edwards (Pennaeth Cyllid (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Heddlu Gogledd Cymru) a Mark Polin (Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru) |

70. **PENODI CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd penodi'r Cyng. Glenys Diskin yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2013/14.

**PENDERFYNWYD-**

**Penodi'r Cyng. Glenys Diskin yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2013/14.**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghr. Julie Fallon, Ian Roberts a Bill Tasker, a oedd wedi eu penodi yn ddiweddar, i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Diolchodd y Panel i'r Cynghr. Bill Cowie, Terry Evans a William Knightly am eu holl waith caled.

***(NODYN:** Nid oedd yr eitem ganlynol wedi ei chynnwys ar y rhaglen, ond fe'i hystyriwyd fel mater brys, gyda chydsyniad y Cadeirydd, dan ddarpariaethau paragraff 100B (4) (b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth ddelio â'r mater.)*

71. **MATERION BRYS**

Gan fod yr Is-Gadeirydd wedi ei benodi'n Gadeirydd, cynigwyd ac eiliwyd penodi'r Cyng. Gethin Williams yn Is-Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2013/14.

**PENDERFYNWYD-**

**Penodi'r Cyng. Gethin Williams yn Is-Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2013/14.**

72. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghr. Amanda Bragg a Philip C. Evans Y.H.

73. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cyng. Julie Fallon gysylltiad personol yng Nghofnod 75 - Cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl, gan fod ei gŵr yn Heddwas Heddlu Gogledd Cymru.

74. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 20 Medi 2013 i'w cymeradwyo.

Dywedwyd bod Pat Astbury wedi ei nodi fel Cynghorydd yn lle Aelod Cyfetholedig Annibynnol.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 20 Medi 2013 fel cofnod cywir yn amodol ar y newid uchod.**

75. **CYFLWYNIAD GAN Y PRIF GWNSTABL YNGLŶN Â PHLISMONA YN Y DYFODOL YNG NGOGLEDD CYMRU.**

Gwahoddwyd Mr Mark Polin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i'r Panel Heddlu a Throsedd i roi cyflwyniad i'r Aelodau ar Gynllun Heddlu a Throsedd - Cynnydd a Heriau.

Roedd y cyflwyniad yn sôn am y meysydd canlynol:

Amcanion:

- Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol:
  - adnewyddu a gweithredu Strategaeth Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yr Heddlu;

- datblygu plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (Operation Tricep);
- cyfrannu at gynllunio a datblygu Cynllun Rheoli Rhanbarthol.

- Diogelu Pobl a Lleihau Niwed:
  - sefydlu Tîm Ymchwilio Trais penodol;
  - datblygu cynllun peilot Canolfan Aml-Asiantaeth Diogelu;
  - parhau i ddatblygu strategaeth i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ffordd;
  - cydymffurfio â'r Gofyniad Plismona Strategol.
- Darparu Gwasanaeth o Ansawdd sy'n Diwallu Anghenion ein Cymunedau:
  - gwerthuso cynllun peilot De Sir y Fflint ('Bod yn Well') a dechrau ei gyflwyno yng Ngogledd Sir y Fflint;
  - pennu tasgau cyfranogol i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) - cynllun peilot wedi ei gyflwyno i 3 cymuned, Llangefni yn un ohonynt;
  - creu cynllun cyflenwi gweithredol i fynd i'r afael â throsedd – angen diffinio trosedd wledig;
  - cyflwyno Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned.
- Hybu Gweithlu sy'n cael ei Arwain yn Dda, sy'n Drefnus ac yn Fedrus.
  - penderfynu ar leoliad a ffurfwedd Ystafell Reoli'r Heddlu, gan roi sylw i faterion sy'n codi o gynllun peilot 'Bod yn Well' - prosiect TG ar hyn o bryd yn edrych ar ffurfwedd Ystafell Reoli;
  - parhau i ddatblygu'r Strategaeth Ystadau; Gorsaf Heddlu Llangefni yn cael ei hagor yn swyddogol yr wythnos hon; tir wedi ei brynu yn Llai, Wrecsam ar gyfer cyfleuster i wasanaethu'r Wyddgrug ac ardaloedd Wrecsam;
  - canfod arbedion pellach (o leiaf £2.6 miliwn) a fydd yn her fawr.

Perfformiad:

- Cyfanswm troseddau wedi gostwng 3.3%
- Trosedd ar sail bod yn ddioddefwr wedi gostwng 2.5%
  - Mae trosedd ar sail bod yn ddioddefwr a gofnodwyd fesul 1000 o'r boblogaeth yn 53.1% (2il yng Nghymru), roedd hyn wedi gwella'n sylweddol - gostyngiad uchaf a gofnodwyd mewn troseddau ar sail bod yn ddioddefwr.
- Treisio a throseddau rhywiol wedi gostwng 5%
  - cynnydd yn nifer y bobl sy'n rhoi gwybod am achosion sydd wedi digwydd flynyddoedd yn ôl o ganlyniad i Ymgyrch Pallial, ymchwiliad annibynnol i honiadau o gam-drin plant hanesyddol, sy'n cael ei arwain gan yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol.
- Troseddau treisgar wedi gostwng 2.5%
- Cyfraddau boddhad wedi parhau'n sefydlog dros y 12 mis diwethaf, gyda mwy o gyswllt dros y misoedd diwethaf
- Cyfraddau salwch wedi lleihau a Thîm Gwella Perfformiad wedi ei sefydlu
- Cyflawni HMIC - lle mae'r Heddlu arni o'i gymharu â Lluoedd tebyg
- Cyfarwyddyd HMIC – yr Heddlu ar hyn o bryd yn is na'r radar coch a gwyrdd

Heriau:

- Y gostyngiad mewn troseddau ar sail bod yn ddioddefwr yn lleihau
- Byrgleriaeth Preswyl wedi cynyddu 13%, sef yr un lefel â 2010, ond yn sylweddol is na 2011:
  - Tîm Byrgleriaeth penodol ym mhob rhanbarth;
  - adolygiad thematig - sefydlu Grwpiau Tasg i fynd i'r afael â throseddau fel byrgleriaeth aur Asiaidd; a
  - Mae 50% o'r troseddau wedi eu cyflawni gan gyn-droseddwyr.
- Trais heb anaf wedi cynyddu 3.9%
  - Roedd gan yr Heddlu systemau adrodd cadarn yn eu lle o'i gymharu â Heddluoedd eraill, ond roedd hyn wedi effeithio ar yr ystadegau. Roedd y Prif Gwnstabl wedi ysgrifennu at yr HMIC i dynnu eu sylw at y gwahaniaeth.
- Cynnydd o 7.5% mewn siopladradau
- Beth yw perfformiad da - lleihau troseddau
  - Mae troseddau seiber yn fygythiad sylweddol;
  - Camfanteisio'n rhywiol ar blant – mae Dadansoddwr Techneg Uchel wedi ymgymryd â chryn dipyn o waith yn y maes hwn; gallu adnabod cyfeiriadau IP, ond mae angen adnoddau i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau.

Beth Wedyn?

- Wynebu bygythiadau newydd
- Dulliau o gyflawni troseddau difrifol a threfnedig yn parhau i newid
- Rhaid adolygu ac ailstrwythuro i adleoli adnoddau
- Bydd yr ymatebion yn arwain at gynnydd mewn troseddau a gofnodwyd

Cyllid:

- Disgwylir i gyllideb y Swyddfa Gartref gael ei chyhoeddi yn ystod trydedd wythnos mis Rhagfyr 2013
- Gofynion arbedion cyfredol
  - £2.5 miliwn yn 2014/15
  - £2.3 miliwn yn 2015/16
  - £4.6 miliwn yn 2016/17
- Risgiau
  - Rhagwelir y bydd cynnydd o 4% ym mhraesept pob blwyddyn – mae pob 1% yn cyfateb i £600 mil
  - Mae'r haenen uchaf o gyllid rhwng £0.75 miliwn a £1 miliwn ar gyfer yr IPCC a'r Gronfa Arloesi;
  - Mae'r fformiwla ariannu yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd yn barod ar gyfer ei gweithredu yn 2016/17.

Arbedion a Chynnal Perfformiad:

- Deall ac ail-lunio'r galw – dylid cyfeirio rhai galwadau at asiantaethau eraill (sbwriel, tipio anghyfreithlon, cŵn crwydr). Bydd y Prif Gwnstabl yn rhoi argymhellion i Gynghorau cyn bo hir.
- Meddwl Systemau
- Ail-archwilio rhai meysydd, yn enwedig rhai nad ydynt yn wasanaethau 'rheng flaen'
- Mae penderfyniadau anodd i'w gwneud - efallai y bydd angen edrych ar y PCSOs, ar hyn o bryd mae yna 268 yn ardal yr Heddlu (101 ohonynt wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru).

Cydweithio:

- Cyfarfod dwyochrog - Swydd Gaer a gweithrediadau arbenigol
- Cyfarfodydd Tairochrog - Swydd Gaer, Glannau Merswy a Swydd Stafford
- Rhanbarthol - Buddsoddiad Titan
- Cenedlaethol - 'Minerva' - alinio prosesau busnes ar draws 18 o heddluoedd i gyflawni effeithlonrwydd ac arbedion.

Partneriaethau:

- Comisiwn Llywodraethu a Darpariaeth Gwasanaethau Cyhoeddus
- Risg o fylchau posib
- Pwysau ar gyllideb y Llywodraeth Leol - glustnodi a bygythiad i ddiogelwch cymunedol.
- Adolygiad o bartneriaethau
- Sefydlu Bwrdd Cymunedau Diogelach - angen pennu rôl, yn enwedig mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau

Datganoli:

- Comisiwn Silk - y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.
- Safle Cymru a’r Llywodraeth Ganolog - angen bod yn glir o ran y canlyniad terfynol - a ddylid datganoli'r System Cyfiawnder Troseddol i gyd?
- Manteision a risgiau - mae angen isadeiledd yn ei le ac arian i ddilyn

Uniondeb:

- Safonau Ymddygiad ('Plebgate', Hillsborough)
- Y berthynas â’r IPCC – mae gan yr Heddlu berthynas dda gyda'r IPCC.
- Ymchwilio lleol
- Craffu lleol a thryloywder cyhoeddus

Y Gweithlu ‘ Newydd’

- Bod yn Broffesiynol
- Cod moeseg
- Mynediad uniongyrchol ar gyfer y rhengoedd uchaf o blismona - Prif Arolygydd, Uwch-arolygydd a Phrif Gwnstabl. Roedd y Prif Gwnstabl yn teimlo y dylai mynediad uniongyrchol gael ei ddefnyddio ar lefel y Prif Arolygydd yn unig.
- Diswyddo gorfodol - nid oes gan yr Heddlu fynediad i drefniadau staffio arferol ac ar hyn o bryd diswyddo gorfodol yw’r unig ffordd i leihau’r Heddlu
- Gwobrau a chydnabyddiaeth

Gogledd Cymru Diogelach:

- Un Tîm
- Gwneud y peth iawn
- Helpu ein cymunedau

*(Cafwyd dwy funud o dawelwch am 11.00 am)*

Diolchodd y Panel i’r Prif Gwnstabl am gyflwyniad llawn gwybodaeth ac aeth ymlaen i drafod y materion canlynol:

- Gweithio gyda Choleg Llandrillo o ran materion ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amrywiaeth - cytunodd y Prif Gwnstabl i gysylltu â'r Coleg i drafod hyn ymhellach.
- SARC (Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol) - Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl fod cryn gyhoeddusrwydd a chyfathrebu wedi ei wneud gydag asiantaethau, y Wasg a thrwy’r cyfryngau cymdeithasol.
- Y rheswm dros ostyngiad yn nifer y galwadau 999 – a oedd galwadau wedi eu dargyfeirio i 101? - nid oedd y Prif Gwnstabl yn teimlo bod unrhyw berthynas rhwng galwadau 999 a galwadau 101, ond byddai'n ymchwilio i hyn.
- Posibilrwydd o Gydweithio Cymru Gyfan - dywedodd y Prif Gwnstabl y byddai cydweithio yn fwyaf tebygol o ddigwydd rhwng Heddluoedd y gogledd orllewin, oherwydd priffordd yr A55.
- Troseddau Seiber - sicrhau bod digon o adnoddau i ganfod dioddefwyr cam-fanteisio ar blant. Cytunodd y Prif Gwnstabl y byddai hyn yn her allweddol a byddai angen i'r Heddlu ymateb yn effeithiol unwaith y bydd y drosedd wedi ei chanfod.
- Peidio â rhoi gwybod am droseddau oherwydd ofn dial - cadarnhaodd y Prif Gwnstabl y byddai'r Heddlu'n parhau i ddatblygu perthynas well gyda chymunedau er mwyn darparu sicrwydd.
- Cynllun Peilot De Sir y Fflint - edrych ar y berthynas rhwng y rheng flaen a'r Ystafell Reoli
- Cynllun newydd i ddisodli rhybuddion cerdyn melyn a choch ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol - cytunodd y Prif Gwnstabl i ddarparu gwybodaeth bellach i'r Panel ar y cynllun hwn.
- Arolwg Cyhoeddus yn cael ei lansio i ganfod barn y cyhoedd.

O ran uniondeb proffesiynol, holodd y Panel ynglŷn â’r prosesau sydd yn eu lle ar gyfer cael sampl DIP o gwynion. Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Gomisiynydd Dros Dro yr Heddlu a Throsedd bod hyn ar ei agenda, ac roedd cyfarfodydd wedi eu trefnu gyda'r Comisiynydd i drafod samplo DIP, adolygu / dadansoddi cwynion; craffu ar benderfyniadau ac ymchwiliadau lleol.

Cadarnhaodd y Comisiynydd y byddai cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu a byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r posibilrwydd o gyflwyno elfen annibynnol yn y cyfnod dyfarnu.

Diolchodd y Cyng. William Hughes i'r Prif Gwnstabl am fynd i'r afael a lleihau troseddau gwledig. Mae'r fenter OWL (Online Watch Link) yn gweithio'n dda yn yr ardaloedd gwledig a bydd yn edrych ar wirio tanwydd cyn bo hir.

Cyfeiriwyd hefyd at leoliad posibl Canolfan Reoli'r Heddlu. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Gwnstabl nad oedd yn credu y byddai'n symud yn rhy bell oddi wrth ei leoliad presennol. Holodd yr Aelodau a oes modd lleoli’r holl wasanaethau brys ar un safle. Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl fod y

Gwasanaeth Tân ac Achub eisoes wedi ei leoli o fewn yr Ystafell Reoli, ond oherwydd problemau logistaidd yn y gorffennol, nid oes modd lleoli'r Gwasanaeth Ambiwlans ar yr un safle. Fodd bynnag, gall archwiliad o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Ambiwlans (Adroddiad McLean), ddarparu cyfle i leoli'r holl wasanaethau brys gyda'i gilydd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Diolch i'r Prif Gwnstabl a'r Heddlu am eu gwaith.**

**(b) Bod gwybodaeth bellach yn cael ei ddosbarthu i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru mewn perthynas â'r cynllun newydd, sy'n disodli'r system rhybudd melyn / coch ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.**

76. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed o ran Cynllun yr Heddlu a Throsedd, diweddariad ar ei weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf ac amlinelliad o'r hyn sydd ar y gweill.

Yn ogystal â'r crynodeb o fewn yr adroddiad, mae'r Comisiynydd hefyd yn rhoi diweddariad ar ei weithgareddau ers cyhoeddi'r adroddiad, sy'n cynnwys:

- Ymweliad â Pharc Caia, Wrecsam gyda'r Cyng. Colin Powell - dywedodd y Comisiynydd y byddai'n croesawu gwahoddiadau gan Aelodau'r Panel i ymweld â'u cymunedau.
- Cyfweliadau gyda'r BBC – roedd y testunau'n cynnwys adrodd am gwynion a myfyrio dros y 12 mis diwethaf.
- Cyfarfod ynghylch uniondeb yr Heddlu yn dilyn 'Plebgate'. Dywedodd y Comisiynydd bod ymddiriedaeth a hyder yn yr Heddlu cyhoeddus yn dal yn uchel yng ngogledd Cymru.
- Cynnal cymhorthfa yn Wrecsam.
- Mynychu gorymdaith cwblhau hyfforddiant Gwnstabliaid newydd.
- Cynnal cyfweliadau ar gyfer swydd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu; bydd angen gwrandawiad cadarnhau yng nghyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru ar 16 Rhagfyr 2013.
- Mynychu seremoni wobrwyo yng Ngwesty Deganwy Quay.
- Mynychu Cyfarfod Blynyddol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) yn Wrecsam a rhoi cyflwyniad ar Blismona Gwledig.
- Mynychu gwasanaeth Sul y Cofio Eglwys Gadeiriol Bangor.

Croesawodd yr Aelodau Cynllun Peilot Cyllidebu Cyfranogol, a fyddai'n darparu ffordd i gymunedau gogledd Cymru benderfynu ar ba brosiectau (mawr neu fach) y dylid eu cefnogi'n ariannol. Fodd bynnag, roedd pryderon yn ymwneud â'r terfynau amser a'r posibilrwydd y gallai sefydliadau bleidleisio fwy nag unwaith.

Mewn ymateb, cadarnhaodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod swyddogion TG yn edrych ar y mater hwn a bod mesurau ataliol yn cael eu rhoi ar waith i atal sefydliadau rhag pleidleisio fwy nag unwaith.

Hysbyswyd y Panel hefyd, gan y byddai'r Cynllun yn cael ei ariannu'n rhannol drwy arian a adenillir drwy Ddeddf Elw Troseddau, bod yn rhaid gwario'r arian erbyn mis Ebrill 2014. Fodd bynnag, byddai Swyddfa'r Comisiynydd yn edrych a oes modd newid rhywfaint ar y terfynau amser.

Cyfeiriwyd hefyd at y prosiectau hynny, na fyddant o bosib yn ymgeisio, ond a fyddent yn effeithiol iawn wrth leihau trosedd ac yn gweithredu dan rywfaint o anhysbysrwydd.

Mewn perthynas ag uniondeb yr heddlu, holodd y Panel pa mor fanwl y byddai'r Comisiynydd yn craffu ar gwynion. Dywedodd y Comisiynydd y byddai angen i'r prosesau fod yn effeithiol, er mwyn cadarnhau bod yr Heddlu yn diogelu safonau ansawdd a phroffesiynoliaeth.

Yn ogystal, dywedodd y Dirprwy Gomisiynydd Dros Dro ei fod yn llunio cynllun astudio ar gyfer craffu a byddai'r meysydd hyn o weithgarwch yn cael ei rannu gyda'r Panel yn y dyfodol.

Ailadroddodd y Comisiynydd, os oedd gan Aelodau unrhyw bryder, y byddai'n cwrdd â nhw ar wahân.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

77. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2013/14**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr wybodaeth ddiweddaraf ar Gyllideb 2013/14.

Cafodd cyllideb Heddlu Gogledd Cymru ei chytuno arni gan y Panel ar 21 Ionawr 2013, ac ar 30 Medi 2013 rhagwelir y bydd tanwariant o £1.58 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, oherwydd cwyn, nad oes modd cau cyfrifon 2012/13 ar hyn o bryd.

Roedd y Panel yn pryderu nad oedd yr adroddiad yn dangos bod 51 o swyddogion ychwanegol wedi eu recriwtio. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Comisiynydd a'r Swyddogion y byddai'r Sefydliad yn cael 51 swyddog newydd yn y pen draw. Fodd bynnag, o ganlyniad i oedi o ran recriwtio ac ymddeol, mae'n anodd darparu tystiolaeth o hyn ar hyn o bryd.

Cyfeiriwyd hefyd at y canlynol:-

- Lwfansau a thaliadau - cadarnhaodd y Swyddogion fod y rhain wedi eu cytuno arnynt yn genedlaethol.

- Cyllideb ar gyfer Secondiadau – rhoddwyd gwybod i’r Panel mai dyma’r effaith net ar gyllideb yr Heddlu.
- Staff asiantaeth ychwanegol i lenwi swyddi gwag - cadarnhaodd y Swyddogion bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio yn yr Ystafell Reoli, felly nid yw hyn yn effeithio ar blismona rheng flaen.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi sefyllfa bresennol Cyllideb 2013/14.**

78. **AMSERLEN AR GYFER PRAESEPT PLISMONA ARFAETHEDIG 2014/15**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad, a oedd yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer gosod y praesept ar gyfer 2014/15.

Mae Atodiad 1 yr adroddiad yn cynnwys arweiniad y Swyddfa Gartref a'r amserlen statudol ar gyfer cymeradwyo praesept.

Cynigiwyd y byddai'r Panel yn adolygu ac yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd ar y praesept arfaethedig yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2014. Os yw’r Panel yn penderfynu rhoi feto ar y praesept arfaethedig, bydd angen cynnal cyfarfod arbennig o’r Panel cyn 3 Chwefror 2014.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer gosod y praesept ar gyfer 2014/15 yn cael ei chymeradwyo.**

79. **GWEITHDREFN GWYNO**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) adroddiad, a oedd yn darparu’r wybodaeth ddiweddaraf ar y camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion a dderbyniwyd hyd yma.

Mae Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi rhestr o'r tair cwyn cofnodadwy a dderbyniwyd hyd yma.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol y camau a gymerwyd mewn perthynas â'r cwynion fel a ganlyn:

Cwyn 1 – wedi ei chyfeirio at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC); y mater hwn bellach wedi ei ddatrys ac felly nid oes angen i’r Panel gymryd unrhyw gam pellach.

Cwyn 2 - gan fod y cwyn yn ymwneud â Chwyn 1, bydd mater yn cael ei ddatrys drwy benderfyniad lleol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai'n ymgynghori gyda thri Aelod o'r Panel i benderfynu ar gamau gweithredu priodol.

Cwyn 3 - y mater wedi ei gyfeirio at yr IPCC, a gyfeiriodd yn ôl at y Panel i'w datrys yn lleol. Mae Swyddfa’r Comisiynydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae’r cyfnod pontio wedi ei orchuddio gan drefniadau blaenorol. Mae’r

mater hwn bellach wedi ei ddatrys ac felly nid oes angen i’r Panel gymryd unrhyw gam pellach.

Cyfeiriwyd at ddatganiad i'r wasg a wnaethpwyd gan y pedwar ymgeisydd etholiad aflwyddiannus, yn ymwneud â Chwyn 1 a gofynnwyd a oes angen i’r Panel gymryd camau pellach. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol bod hwn yn fater i'r IPCC ac nid i’r Panel.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion a dderbyniwyd hyd yma.**

80. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AR GYFER PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Hysbyswyd y Panel y byddai'r cyfarfod ar 16 Rhagfyr 2013 yn dechrau am 2.00pm ac nid 10.00am fel y nodwyd ar y rhaglen.

Byddai'r Cynllun yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r angen am wrandawiad cadarnhau ar 16 Rhagfyr 2013, felly bydd y praesept arfaethedig yn cael ei ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ionawr 2014.

**PENDERFYNWYD-**

**Diwygio’r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y nodwyd uchod.**

81. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Bydd cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 16 Rhagfyr 2013 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 pm)

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

EITEM RHAGLEN 5

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Y Cynghorydd Glynis Diskin
Cadeirydd
Panel Heddlu a Throsedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy LL32 8DU

Ein Cyf / Our Ref: WR/mm

29 Tachwedd 2013

Annwyl Glynis

**Gwrandawiad Cadarnhau'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd**

Yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'n rhaid i mi gael cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throsedd ar yr unigolyn sydd wedi'i enwebu i fod yn Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Ysgrifennaf atoch felly i'ch hysbysu o fy enwebiad ar gyfer y swydd statudol hon. Fy argymhelliad ydi bod Mr Julian Sandham yn cael ei benodi'n Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe bai'r Panel Heddlu a Throsedd yn gallu ystyried fy argymhelliad mewn Gwrandawiad Cadarnhau ac yna fy hysbysu os yw fy argymhelliad yn cael cymeradwyaeth y Panel.

Mi fydd adroddiad llawn yn dilyn er sylw'r Panel.

Diolch yn fawr.

Yn gywir

Winston Roddick

Winston Roddick CB QC
Comisiynydd

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**16 Rhagfyr 2013**

**Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd**

**Adroddiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ("Y Ddeddf") mae'n rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ("y Comisiynydd") gael cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throsedd ("y Panel") ynghylch yr unigolyn sydd wedi'i enwebu i fod yn Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ardal blismona Gogledd Cymru.

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Yn unol â'r Ddeddf fe wahoddir y Panel i adolygu penodiad arfaethedig Mr Julian Sandham fel Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

2.2 Gwneud argymhelliad i Gomisiynydd Gogledd Cymru ynghylch a ddylai'r ymgeisydd gael ei benodi ai peidio.

## 3. CEFNDIR

3.1 Mae'r Ddeddf yn datgan, dan adran 18(1), bod modd i Gomisiynydd ardal blismona benodi unigolyn fel Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal honno.

3.2 Dan Atodlen 1, paragraff 9, o'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r Comisiynydd hysbysu'r Panel o'r penodiad arfaethedig i'r swydd 'Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd'.

3.3 Hefyd mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi'r wybodaeth ganlynol i'r Panel:

3.3.1 Enw'r person y mae'n bwriadu ei benodi;

3.3.2 Y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu pa mor addas yw'r ymgeisydd ar gyfer y swydd;

3.3.3 Pam bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf hynny; a

3.3.4 Thelerau ac amodau penodiad yr ymgeisydd.

3.4 Dan baragraff 10 o Atodlen 1, mae'n rhaid i'r Panel adolygu'r penodiad arfaethedig a chyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd ynghylch y penodiad arfaethedig, gan gynnwys argymhelliad i'r Comisiynydd a ddylai'r ymgeisydd gael ei benodi ai peidio, o fewn cyfnod o 3 wythnos fydd yn cychwyn o'r diwrnod y bydd y Panel yn derbyn hysbysiad gan y Comisiynydd o'r penodiad arfaethedig.

3.5 Mae'n rhaid i'r Comisiynydd hysbysu'r Panel o'i benderfyniad i dderbyn neu wrthod argymhelliad y Panel.

## 4. MATERION I'W HYSTYRIED

### 4.1 Enw'r Ymgeisydd

4.1.1 Enw'r unigolyn y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei benodi i'r swydd Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yw Mr Julian Sandham.

### 4.2 Y Broses Benodi

4.2.1 Er nad yn ofyniad, mynnodd y Comisiynydd gynnal proses benodi agored ar gyfer recriwtio Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

4.2.2 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn llwyr ymwybodol y cynhaliwyd proses recriwtio yn gynharach yn y flwyddyn ond bod y sawl y cynigiwyd y swydd iddynt wedi ei gwrthod am resymau personol.

4.2.3 Ar 4 Hydref 2013 cafodd y Comisiynydd gefnogaeth y Panel Heddlu a Throsedd i benodi Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dros dro ac i gychwyn y broses recriwtio eto gyda'r nod o benodi ymgeisydd addas ar gyfer y swydd.

4.2.4 Rhoddwyd hysbyseb mewn papurau newydd sydd â chylchrediad ledled ardal yr heddlu yn ogystal ag ar wefan y Comisiynydd ac fe'i hyrwyddwyd hefyd gan swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

4.2.5 Derbyniwyd cyfanswm o 11 cais a thynnwyd y rhestr fer gan y Comisiynydd, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Gweithredol; gwahoddwyd tri ymgeisydd am gyfweliad.

4.2.6 Er mwyn sicrhau tryloywder llwyr gofynnodd y Comisiynydd i gynrychiolwyr awdurdodau lleol gymryd rhan yn y cyfweliadau. Derbyniodd cynrychiolwyr o gynghorau Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych wahoddiad i gymryd rhan yn y broses.

4.2.7 Gwnaeth safon y tri unigolyn a gyfwelwyd argraff fawr ar y Panel Cyfweld ac roedd gan bob un o'r tri rywbeth unigryw i'w gynnig, ond daeth y Panel i gytundeb unfrydol mai Mr Sandham oedd yr ymgeisydd mwyaf addas gan y byddai ei brofiadau gyrfaol yn adlewyrchu ac yn cyd fynd â chefndir cyfreithiol y Comisiynydd.

### 4.3 Y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu pa mor addas yw'r ymgeisydd ar gyfer y swydd

4.3.1 Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod ganddo ddyletswyddau statudol penodol (gweler Atodiad 1) ac mai ef yw'r unigolyn sy'n llwyr gyfrifol am eu cyflawni. O ganlyniad i hyn mae'n dymuno penodi dirprwy fyddai'n gallu ei gefnogi'n llwyr, ond yn benodol rhywun sydd â:

a) Lefel uchel o unplygrwydd a barn gadarn, a rhywun y gall y Comisiynydd ymddiried ynddo
b) Profiad a dealltwriaeth o'r gwasanaeth plismona ac o drefn llywodraethu ac atebolrwydd yr heddlu
c) Dealltwriaeth o'r angen i ymgysylltu â grwpiau cymunedol yng Ngogledd Cymru
d) Gwerthoedd tebyg o ran rôl a phwrpas y gwasanaeth plismona a'i atebolrwydd
e) Dealltwriaeth o'r angen i beidio ag ymyrryd â materion gweithredol yr heddlu

4.3.2 Mae'r Comisiynydd yn fodlon bod gan Mr Julian Sandham brofiad a dealltwriaeth addas o'r rôl.

4.4 **Telerau ac Amodau'r Penodiad**

4.5 Bydd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yn aelod o staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae copi o'r Telerau ac Amodau yn atodedig (Atodiad 2)

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Crynodeb o'r Rôl Statudol, Cyfrifoldebau a Swyddogaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r swyddogaethau y gellir eu dirprwyo i'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd gan y CHTh. |
| Atodiad 2 | Proffil Swydd, Manyleb yr Unigolyn a Thelerau ac Amodau |

## 5. GOBLYGIADAU'R ADRODDIAD

| | | |
|---|---|---|
| 5.1 Amrywiaeth | | Bydd holl staff SCHTh yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 |
| 5.2 | Ariannol | Cytunwyd eisoes mai'r raddfa gyflog fydd PO(D), gyda chyflog o £41,163 y flwyddyn. Yn wreiddiol cafodd y broses recriwtio ei chynnal yn fewnol ac roedd y costau'n isel. Cafodd Aelodau'r Panel Penodiadau Annibynnol eu talu yn unol â'r lwfansau mynychu dyddiol a'r treuliau teithio arferol. |
| 5.3 | Cyfreithiol | Mae'r pŵer sydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i benodi Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer ardal yr heddlu a'r broses y dylid ei dilyn wedi'u nodi yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (adran 18(1), ac Atodlen 1, paragraff 9 a 10, yn ôl eu trefn). |
| 5.4 | Risg | Mae'r Comisiynydd angen Dirprwy er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn unol â'r Ddeddf. Byddai'n risg i'r sefydliad pe na bai'r holl ddyletswyddau statudol yn cael eu diwallu. Bydd y ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd. |
| 5.5 | Iaith Gymraeg | Roedd manyleb yr unigolyn yn gofyn am ymrwymiad i ddysgu Cymraeg. |


**Awdur yr Adroddiad**

Anna Humphreys, Prif Weithredwr

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

☎ 01492 805486

✉ opcc@nthwales.pnn.police.uk

**Summary of the Statutory Role, Responsibilities and Functions of the Police and Crime Commissioner (PCC) and the permissible delegation of functions by a PCC to a Deputy Police and Crime Commissioner (DPCC)**

| PCC FUNCTIONAL RESPONSIBILITY | PR&SR Act 2011 | Permissible Delegation of PCC function to DPCC? | |
|---|---|---|---|
| | Reference to Section of Act | **Permissible** (at discretion of PCC) | **Non-Permissible** (s18(3)(b) |
| **Policing** | | | |
| Secure the maintenance of an efficient and effective police force for that area | s1(6) | ✓ | |
| | | | |
| **Strategic Planning** | | | |
| Issue a Police and Crime Plan | s5 | | X |
| Review the Police and Crime Plan | s5(9) | ✓ | |
| | | | |
| **Holding the Chief Constable (CC) to account for:** | | | |
| • The exercise of the functions of the CC, and of persons under the direction and control of the CC | s1(7) | ✓ | |
| • The exercise of the duty to have regard to the Police and Crime Plan | s1(8)(a) | ✓ | |
| • The exercise of the duty to have regard to the Strategic Policing Requirement | s1(8)(b) | ✓ | |
| • The exercise of the duty to have regard to codes of practice issued by the Secretary of State | s1(8)(c) | ✓ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • The effectiveness and efficiency of the CC's arrangements for co-operating with other persons | s1(8)(d) | ✓ | |
| • The effectiveness and efficiency of the CC's arrangements for engagement with local people | s1(8)(e) | ✓ | |
| • The extent to which the CC achieves value for money | s1(8)(f) | ✓ | |
| • The exercise of duties relating to equality and diversity | s1(8)(g) | ✓ | |
| • The exercise of duties in relation to the safeguarding of children and the promotion of child welfare | s1(8)(g) | ✓ | |
| | | | |
| **Partnership Working** | | | |
| May make a crime and disorder reduction grant to any person | s9(1) | ✓ | |
| Must have regard to the relevant priorities of each responsible authority | s10(1) | ✓ | |
| Must act in co-operation with responsible authorities | s10(2) | ✓ | |
| Must make arrangements with criminal justice agencies for the exercise of functions so as to provide an efficient and effective criminal justice system for the area | s10(3) | ✓ | |
| Must keep under consideration the ways in which the collaboration functions could be exercised to improve the efficiency and effectiveness of the policing body and/or the Force, or one or more other policing bodies and forces | s89(2) | ✓ | |
| Enter into collaboration arrangements | s89 & Schedule 12 | ✓ | |
| Keep collaboration agreements under review | s89 & Schedule 12 | ✓ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Provide advice and assistance to a body outside the UK | Schedule 16, para. 25 | ✓ | |
| | | | |
| **People** | | | |
| Appointment, suspension and removal of the CC | s38 | | X |
| Appointment of a chief executive and chief finance officer | Schedule 1 | ✓ | |
| Appointment of Deputy Police and Crime Commissioner | s18(1) | | X |
| Appointment of other staff as appropriate | Schedule 1, para. 6(3) | ✓ | |
| | | | |
| **Information and Engagement** | | | |
| Publish specified information for the public in the time or manner specified | s11 | ✓ | |
| Produce an Annual Report | s12 | ✓ | |
| Provide the Police and Crime Panel with any information which the Panel may reasonably require | s13 | ✓ | |
| Make arrangements for obtaining: | s14 | | |
| • The views of people about matters concerning the policing of the area | | ✓ | |
| • The views of victims of crime about matters concerning the policing of that area | | ✓ | |
| • The views of: | | | |
| (a) The people in that area | | ✓ | |
| (b) The relevant ratepayers' representatives | | ✓ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| on the proposals of the PCC for expenditure before the first precept for a financial year is issued by the a PCC | | | |
| | | | |
| **Finance** | | | |
| Enter into agreements for the supply of goods and services | s15 | ✓ | |
| Keep a Police Fund | s21 | ✓ | |
| Receive grants for police purposes | s24 | ✓ | |
| Receive grants for capital expenditure | s25 | ✓ | |
| Receive national security grants | s25 | ✓ | |
| Receive grants from local authorities | s25 | ✓ | |
| Accept gifts or loans | s25 | ✓ | |
| Borrow monies | s25 | ✓ | |
| Issue a precept | s26 | | X |
| Receive emergency financial assistance | s27 | ✓ | |
| Do anything calculated to facilitate the exercise of the PCC's functions, including: | Schedule 1, para. 14 | ✓ | |
| • Entering into contracts and other agreements | | ✓ | |
| • Acquiring and disposing of property (including land) | | ✓ | |
| • Borrowing money | | ✓ | |
| | | | |

## Swydd disgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ( Y Dirprwy) |
| **Cyflog** | PO(D) ar gyfer y swydd llawn amser (bydd y cyflog ar gyfer swydd rhan amser yn cael ei addasu *pro rata*) |
| **Yn atebol i:** | Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Y Comisiynydd) |
| **Oriau:** | Opsiynau llawn amser neu ran amser ar gael<br><br>Oherwydd natur y rôl disgwylir y bydd cyfran o'r dyletswyddau'n cael eu cyflawni gyda'r nosau ac ar benwythnosau ac ni fydd unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol am hyn. |
| **Lleoliad:** | Pencadlys yr Heddlu, Glan y Don, Bae Colwyn, LL29 8AW |

## Crynodeb o'r Swydd

- Bydd y Dirprwy yn gyfrifol am gefnogi'r Comisiynydd ym mhob agwedd ar ei rôl.
- Gweithio gyda'r Comisiynydd er mwyn sicrhau y cyflawnir gweledigaethau, strategaethau a blaenoriaethau dynodedig.
- Ymgysylltu â chymunedau Gogledd Cymru er mwyn sicrhau fod eu barn a'u safbwyntiau'n cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y Comisiynydd.

**Trosolwg o'r Rôl**

Crëwyd y rôl o Ddirprwy Gomisiynydd drwy statud yn 2011 ac mae'n rhan o newid sylfaenol i drefniadau llywodraethu plismona. Bydd y Dirprwy yn gyfrifol am gefnogi'r Comisiynydd ym mhob agwedd ar ei rôl.

Mae'r proffil swydd hwn yn amlinellu dimensiynau a nodweddion hollbwysig y rôl, gan gynnwys cyfrifoldebau allweddol deilydd y swydd.

Bydd deilydd y swydd yn riportio'n uniongyrchol i, yn gweithio ar y cyd â, ac yn atebol i'r Comisiynydd.

**Cyfrifoldebau allweddol**

1. Bod yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau a datblygu rhaglenni fydd yn cael eu hariannu gyda grantiau Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd er mwyn cefnogi darpariaeth y Cynllun Heddlu a Throsedd.
2. Mynd ati'n rhagweithiol i wella perthnasau gydag amrediad eang o randdeiliaid yn y sectorau diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol gan adnabod rhwystrau neu gyfleoedd i wella darpariaeth rhaglenni fydd yn sicrhau gwell deilliannau ar gyfer pobl leol.

3. Arwain mentrau cydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid lleol er mwyn gwella plismona cymunedol a lleihau trosedd.
4. Sicrhau ansawdd y gwasanaethau plismona a ddarperir yng ngogledd Cymru a chefnogi'r Comisiynydd i graffu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona
5. Bod yn llysgennad ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol, cyrff cyhoeddus, cynrychiolwyr etholedig a sefydliadau perthnasol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion plismona'r gymuned.
6. Cefnogi'r Comisiynydd yn ei ddyhead i sicrhau y cynrychiolir anghenion y gymuned mewn plismona, a ble bo hynny'n briodol trosi'r anghenion hynny'n weithredoedd a deilliannau dilys.
7. Cynorthwyo i friffio Aelodau Seneddol, aelodau Cynulliad Cymru, cynghorwyr, swyddogion llywodraeth a phartneriaid gwirfoddol a chyfiawnder troseddol eraill ar bolisi'r Comisiynydd.
8. Cynrychioli barn awdurdodedig y Comisiynydd yn y cyfryngau ble bo hynny'n briodol.
9. Ar ran y Comisiynydd, helpu i gynhyrchu cynigion polisi ac ymateb i ddatblygiadau polisi cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill Cymru a Lloegr.
10. Cynorthwyo'r Comisiynydd â'i gysylltiadau â Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a'i staff a chysylltu â sefydliadau ac unigolion eraill ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'n rhaid i ddeilydd y swydd fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol fydd yn deillio o newidiadau mewn amgylchiadau ond nad ydynt yn newid cymeriad cyffredinol na lefel cyfrifoldeb y swydd.

**Teithio:** Bydd cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn gofyn am deithio eang o fewn Gogledd Cymru ac i rannau eraill o Gymru a Lloegr hefyd o dro i dro.

**Oriau Gwaith:** Agwedd hyblyg tuag ar oriau gwaith ac ymrwymiad i fod ar gael i gyflawni dyletswyddau gyda'r nosau ac ar benwythnosau pan fo angen.

**Fetio Diogelwch:** Mae'n un o ofynion y rôl bod ymgeiswyr yn mynd drwy broses Fetio Rheolwyr a gwiriad Diogelwch Cenedlaethol.

## Manyleb yr Unigolyn

**Rhinweddau Personol – barn y Comisiynydd**

Rwy'n chwilio am rywun y gallaf ymddiried yn llwyr ynddynt, rhywun y gallaf ddibynnu arnynt a rhywun sydd ag unplygrwydd a doethineb barn. Rwy'n chwilio am rywun sydd â rhai, neu bob un o'r rhinweddau canlynol:

- Synnwyr cryf o annibyniaeth
- Gweledigaeth a gallu i feddwl yn strategol ac yn ddargyfeiriol
- Sgiliau arwain a rheoli
- Y gallu i reoli newid ac i ysgogi arloesedd
- Y gallu i roi cyfweliadau i'r wasg a gwneud cyflwyniadau
- Dealltwriaeth gref a gwybodaeth dda o faterion cyfoes

**Profiad a chymwysterau**

- Dealltwriaeth drylwyr a phrofiad o natur ddaearyddol, gymdeithasol ac economaidd amrywiol yr ardal
- Profiad cadarn o weithio gyda chymunedau amrywiol ac o weithio tuag at sicrhau gwell deilliannau i bobl leol
- Profiad o gomisiynu gwasanaethau
- Addysg hyd lefel gradd neu brofiad proffesiynol/cymhwyster arbenigol cyfwerth, neu feddu ar brofiad sy'n dangos y gallu deallusol i weithredu o fewn rôl gymhleth
- Dealltwriaeth dda a phrofiad o heriau sefydliadol yn ymwneud â sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng costau a gwerth mewn amgylchedd ble mae adnoddau'n lleihau.
- Profiad o lywodraethu a chraffu sefydliadol ynghyd â dealltwriaeth gadarn o atebolrwydd.
- Profiad o weithio ar draws gwahanol asiantaethau ar lefelau strategol a gweithredol.
- Profiad o drosi amcanion strategol yn weithredoedd dilys

**Sgiliau – Hanfodol**

- Y gallu i wireddu nodau a gweledigaeth strategol
- Y gallu fynd ati mewn dull cydweithredol i gyflawni blaenoriaethau, gan gynnwys datblygu cynigion cydweithio effeithiol gyda sefydliadau perthnasol
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno o'r radd flaenaf
- Y gallu i ymgysylltu, gwrando a deall anghenion gwahanol gymunedau
- Y gallu i feddwl a gweithredu ar lefel strategol, gan adnabod problemau ac anawsterau a gosod blaenoriaethau ar lefel sefydliad cyfan a/neu dros gyfnod hir
- Cynnal perthnasau gwaith da gyda sefydliadau partner
- Y gallu i feithrin perthnasau, dylanwadu ar a chyd-drafod â swyddogion o statws uchel
- Agwedd hyblyg tuag at weithio ar benwythnosau a gyda'r nosau pe bai hyn yn angenrheidiol.
- Mae'r rhaid i ddeilydd y swydd breswylio yn ardal Heddlu Gogledd Cymru.

- Tystiolaeth o ymwybyddiaeth o strwythurau, gweithdrefnau a pholisïau gwleidyddol ar lefel leol a chenedlaethol.
- Lefel dda o sgiliau Technoleg Gwybodaeth
- Yn gallu gyrru

**Sgiliau Dymunol**

- Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon. Fe ddylai ymgeiswyr nad ydynt yn siarad Cymraeg ymrwymo i ddysgu Cymraeg i'r lefel briodol er mwyn gallu ymgymryd â'r swydd.

**Rhinweddau Personol**

- Yn gallu ennyn ffydd, parch a chydnabyddiaeth cyfoedion a rhanddeiliaid
- Yn rhannu dyheadau, gwerthoedd ac ymrwymiad y Comisiynydd i weithredu fel llais y bobl leol
- Yn ddigon galluog a hyderus i gymryd cyfrifoldeb personol dros benderfyniadau a wneir ynghyd â'r gallu i gyfathrebu'r rhain yn effeithiol.
- Ymrwymiad i saith egwyddor bywyd cyhoeddus

## Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus

**Anhunanoldeb:**

Byddwn yn gwneud penderfyniadau sydd er lles y cyhoedd yn unig. Ni fyddwn yn gwneud penderfyniadau er mwyn ennill manteision ariannol neu fanteision eraill i ni ein hunain, ein teuluoedd neu ein ffrindiau.

**Unplygrwydd:**

Ni fyddwn yn rhoi ein hunain dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allent ddylanwadu ar y modd yr ydym yn cyflawni ein dyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrychedd:**

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau neu fuddion, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau yn ôl haeddiant.

**Atebolrwydd:**

Rydym yn atebol i'r cyhoedd am ein penderfyniadau a'n gweithredoedd ac rydym yn barod i fod yn destun unrhyw graffu sy'n briodol i'n swydd

**Bod yn Agored:**

Byddwn mor agored â phosibl ynghylch pob penderfyniad a wnawn a gweithred a gyflawnwn. Byddwn yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniadau ac ni fyddwn yn cyfyngu ar wybodaeth oni bai bod budd cyhoeddus ehangach yn galw am hynny.

**Gonestrwydd:**

Mae arnom ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat perthnasol i'n dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn modd sy'n diogelu budd cyhoeddus.

**Arweinyddiaeth:**

Byddwn yn hyrwyddo ac yn cynnal yr egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth a thrwy ein hesiampl ein hunain.

## Ynglŷn â’r Comisiynydd

Y Comisiynydd sy’n gyfrifol am sicrhau bod anghenion plismona cymunedau Gogledd Cymru yn cael eu diwallu mor effeithiol â phosibl.

Bydd yn gwneud hyn drwy:

- ddal y Prif Gwnstabl yn atebol am ddarpariaeth yr heddlu
- llunio a diweddaru'r Cynllun Heddlu a Throsedd
- gosod cyllideb yr heddlu a’r praesept
- ymgysylltu’n rheolaidd â’r cyhoedd a chymunedau

Bydd y Comisiynydd yn gosod cyfeiriad. Bydd hyn yn cynnwys:

**Gosod cyfeiriad strategol ac atebolrwydd am blismona**

- gosod yr amcanion plismona strategol
- dal yr heddlu’n atebol drwy’r Prif Gwnstabl
- ymgynghori â, a chynnwys y cyhoedd
- bod yn atebol i’r etholaeth

**Gweithio â phartneriaid i atal a mynd i’r afael â throsedd ac ail-droseddu**

- sicrhau fod yr heddlu'n ymateb yn effeithiol i bryderon y cyhoedd a bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd
- hyrwyddo a galluogi gweithio cydlynol ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol
- cynyddu hyder y cyhoedd yn y modd y cwtogir trosedd ac y darperir plismona

**Rhoi llais i’r cyhoedd, y diamddiffyn a dioddefwyr**

- sicrhau y gweithredir ar yr hyn sy'n flaenoriaeth i’r cyhoedd, yr ymgynghorir â dioddefwyr ac nad yw’r rhai mwyaf diamddiffyn yn cael eu hanghofio.
- cydymffurfio â’r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol dan y Ddeddf Cydraddoldeb
- cyfrannu tuag at sicrhau’r adnoddau priodol ar gyfer ymateb yr heddlu i fygythiadau rhanbarthol a chenedlaethol
- ochr yn ochr â phartneriaid eraill, sicrhau cyfraniad plismona effeithiol tuag at drefniadau cenedlaethol i amddiffyn y cyhoedd rhag bygythiadau trawsffiniol eraill yn unol â’r gofyniad plismona strategol.

**Sicrhau gwerth am arian**

- bod yn gyfrifol am ddyrannu’r grantiau plismona a geir gan y llywodraeth ganolog a gosod y praesept a godir drwy dreth y cyngor.

## Gwahardd Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd – meini prawf

**Dyfyniadau o [Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011]**

**A8 Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd**

Dyfyniadau perthnasol o baragraffau 8, Atodlen 1 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

*8 (1) This paragraph applies to a person appointed under section 18 by a Police and Crime Commissioner to be the deputy police and crime Commissioner.*

*(2) None of the following may be appointed as the deputy police and crime commissioner-*

- *a) a person who has not attained the age of 18 on the day of the appointment;*
- *b) a person who is subject to a relevant disqualification;*
- *c) a Member of the House of Commons*
- *d) a Member of the European Parliament*
- *e) a Member of the National Assembly for Wales*
- *f) a Member of the Scottish Parliament*
- *g) a Member of the Northern Ireland Assembly*

*(3) The terms and conditions of a person who is appointed as the deputy police and crime commissioner must provide for the appointment to end not later than the day when the current term of Office of the appointing police and crime commissioner ends.*

*(4) Section 7 of the Local Government and Housing Act 1989 (appointment of staff on merit) does not apply to the deputy police and crime commissioner.*

*(5) In this paragraph "current term of office", in relation to the appointment of a deputy police and crime commissioner by a police and crime commissioner, means the commissioner's term of office which is running at the time the appointment is made.*

*(6) For the purposes of this paragraph, a person is subject to a relevant disqualification if the person is disqualified from being elected as, or being, a police and crime commissioner under-*

- *a) section 65(1) (police officers, police-related employment etc), other than paragraph (e)(ii); or*
- *b) section 66(1), 3(a)(iii) or (iv), 3(c) or 3(d) (citizenship, bankruptcy, criminal convictions & corrupt or illegal election practices)*

**A65 Gwaharddiad rhag dal swydd fel comisiynydd heddlu a throsedd: ar sail cysylltiadau â'r heddlu**

Dyfyniadau perthnasol o Adran 65(1) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

*65 (1) A person is disqualified from being elected as, or being, a Police and Crime Commissioner if the person-*

- *a) is disqualified from being a member of the House of Commons under section 1(1)(d) of the House of Commons Disqualification Act 1975 (members of police forces for police areas in the United Kingdom);*
- *b) is a member of-*
  - *(i) the British Transport Police Force*
  - *(ii) the Civil Nuclear Constabulary*

*c) is a special constable appointed-*
*(i) under section 27 of the Police Act 1996 for a police area or the City of London police area;*
*(ii) under section 25 of the Railways and Transport Safety Act 2003 (British Transport Police Force)*

*d) is a member of staff of the chief officer of police of any police force maintained for a police area;*

*e) is a member of staff of-*
*(i) a Police and Crime Commissioner;*
*(ii) the Mayor's Office for Policing and Crime;*

*f) is the Mayor of London;*

*g) is a member of the Common Council of the City of London or a member of staff of that Council in its capacity as a police authority;*

*h) is a member (including a member who is chairman or chief executive), or a member of staff, of-*
*(i) the British Transport Police;*
*(ii) the Civil Nuclear Police Authority;*
*(iii) the Independent Police Complaints Commission;*
*(iv) the Serious Crime Agency;*
*(v) The National Policing Improvement Agency;*

*i) holds any employment in an entity which is under the control of-*
*(i) a local policing body;*
*(ii) any body mentioned in paragraph (h);*
*(iii) the chief officer of police for any police force maintained for a police area or the City of London police area;*
*(iv) the chief officer of police for any police force mentioned in paragraph (b).*

**A66 Gwaharddiad rhag dal swydd fel comisiynydd heddlu a throsedd: rhesymau eraill**

Dyfyniadau perthnasol o Adran 66 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

*66 (1) A person is disqualified from being elected as, or being, a police and crime commissioner unless the person satisfies the citizenship condition (see section 68)*

*(2) A person is disqualified from being elected as, or being, a police and crime commissioner if the person— .*
*(a) is disqualified from being a member of the House of Commons under section 1(1)(a) to (c) of the House of Commons Disqualification Act 1975 (judges, civil servants, members of the armed forces), or*
*(b) is a member of the legislature of any country or territory outside the United Kingdom.*

*(3) A person is disqualified from being elected as, or being, a police and crime commissioner if:-*
*(a) the person is the subject of-*
*(i) a debt relief restrictions order under paragraph 1 of Schedule 4ZB to the Insolvency Act 1986; .*
*(ii) an interim debt relief restrictions order under paragraph 5 of that Schedule;*
*(iii) a bankruptcy restrictions order under paragraph 1 of Schedule 4A to that Act;*

*(iv) a bankruptcy restrictions interim order under paragraph 5 of that Schedule;*

*(c) the person has been convicted in the United Kingdom, the Channel Islands, or the Isle of Man, of any imprisonable offence (whether or not sentenced to a term of imprisonment in respect of the offence); or*

*(d) the person is incapable of being elected as a member of the House of Commons, or is required to vacate a seat in the House of Commons, under Part 3 of the Representation of the People Act 1983 (consequences of corrupt or illegal practices).*

**S68 Amodau Dinasyddiaeth**

Dyfyniadau perthnasol o Adran 68 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

*68 (1) This section applies for the purposes of section 66.*

*(2) A person satisfies the citizenship condition if the person is—*

*(a) a qualifying Commonwealth citizen,*

*(b) a citizen of the Republic of Ireland, or*

*(c) a citizen of the Union.*

*(3) For the purposes of this section, a person is a qualifying Commonwealth citizen if the person is a Commonwealth citizen and—*

*(a) is not a person who requires leave under the Immigration Act 1971 to enter or remain in the United Kingdom, or*

*(b) is a person who requires such leave but for the time being has (or is, by virtue of any enactment, to be treated as having) indefinite leave to remain within the meaning of that Act.*

*(4) But a person who does not require leave to enter or remain in the United Kingdom by virtue only of section 8 of the Immigration Act 1971 (exceptions to requirement for leave in special cases) is not a qualifying Commonwealth citizen by virtue of subsection (3)(a).*

*(5) In this section the expression "citizen of the Union" is to be construed in accordance with Article 20(1) of the Treaty on the Functioning of the European Union.*

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 16 Rhagfyr 2013 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch – Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **PWNC:** | Cynllun Lwfansau |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Ystyried a ddylai Cynllun Lwfansau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wneud darpariaeth ar gyfer:

- Amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn cyfarfodydd
- Amser teithio i leoliad y cyfarfod ac oddi yno

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol yn ddiweddar, ac er nad oes gan yr IRPW unrhyw awdurdod dros Baneli Heddlu a Throsedd, mae Cynllun Lwfansau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn seiliedig ar y taliadau a wneir i aelodau cyfetholedig.

2.2 Mae penderfyniadau diwygiedig yr IRPW, yn cynnwys tâl am amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn cyfarfodydd, ac mae'n gymwys cynnwys hynny o fewn hawliadau a wneir gan Aelodau cyfetholedig. Mae'r IRPW hefyd wedi penderfynu y gellir cynnwys amser teithio i leoliad cyfarfodydd ac oddi yno o fewn ceisiadau a wneir am daliad.

## 3. ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION)/DEWISIADAU

3.1 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ystyried a ddylid diwygio'r Cynllun Lwfansau yn unol â phenderfyniadau diwygiedig yr IRPW.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Cymeradwyodd y Panel Heddlu a Throsedd Gynllun Lwfansau ar 4 Mehefin, 2013, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau'r panel fel a ganlyn:

- Gwneir taliadau drwy ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), gyda therfyn uchaf sy'n gyfwerth â 5 diwrnod llawn y flwyddyn.
- Mae gan Aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd yr hawl i hawlio lwfansau teithio ar gyfer cyflawni dyletswyddau cymeradwy.

4.2 Er nad oes gan yr IRPW unrhyw awdurdod dros Baneli Heddlu a Throsedd, mae'r cyfraddau cyflog yn seiliedig ar y taliadau a wneir i aelodau cyfetholedig.

4.3 Mae'r penderfyniadau diwygiedig sydd wedi eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol yr IRPW yn cynnwys tâl am amser rhesymol er mwyn paratoi cyn cyfarfodydd, ac mae'n gymwys cynnwys hynny o fewn hawliadau a gyflwynir gan Aelodau cyfetholedig. Penderfynodd yr IRPW hefyd y gellir cynnwys amser teithio i leoliad cyfarfodydd ac oddi yn y ceisiadau a wneir am daliadau

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Ymgynghorwyd â Chadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid i Awdurdod Lletyol y Paneli Heddlu a Throsedd, a all dderbyn hyd at £920 fesul aelod y flwyddyn.

## 7. RISG

7.1 Trwy fabwysiadu penderfyniadau diwygiedig yr IRPW, mae risg i'r Aelodau fynd y tu hwnt i'r mwyafswm sy'n daladwy mewn unrhyw un flwyddyn (£920) ac felly ni fyddai modd iddynt hawlio am fynychu cyfarfodydd pellach.

## 8. CYHOEDDI

8.1 Cyhoeddir treuliau'r Panel yn flynyddol.

## 9. RHESWM(RHESYMAU) DROS YR ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION)

9.1 Ceisio barn y Panel p’un ai y dylid diwygio'r Cynllun Lwfansau i ymgorffori penderfyniadau Adroddiad Blynyddol yr IRPW.